# Datganiad hygyrchedd ar gyfer yr Hyfforddiant Alergedd ac Anoddefiad Bwyd

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd allergytraining.food.gov.uk

Mae'r wefan hon yn cael ei chynnal gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Fe'i dyluniwyd i'w defnyddio gan gynifer o bobl â phosibl. Dylai'r testun fod yn glir ac yn syml i'w ddeall a dylech allu:

- newid lliwiau, lefelau cyferbyniad a ffontiau
- chwyddo hyd at 300% heb i'r testun ddisgyn oddi ar y sgrin
- llywio drwy’r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd (keyboard) yn unig
- llywio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod lleferydd
- gwrando ar y rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio darllenydd sgrin (gan gynnwys y fersiynau diweddaraf o JAWS, NVDA a VoiceOver)
- darllen is-deitlau ar fideos

## Pa mor hygyrch yw'r wefan hon?

Rydym ni’n gwybod nad yw rhai rhannau o'r wefan hon yn gwbl hygyrch. Gallwch weld rhestr lawn o unrhyw faterion yr ydym ni’n gwybod amdanynt ar hyn o bryd yn adran ‘cynnwys nad yw'n hygyrch’ y datganiad hwn.

## Adborth a gwybodaeth gyswllt

Os oes angen gwybodaeth oddi ar y wefan hon arnoch mewn fformat gwahanol, fel PDF hygyrch, print bras, testun hawdd ei ddarllen, recordiad sain neu braille, gallwch gysylltu â ni.

Os byddwch yn ysgrifennu atom: nodwch ar eich gohebiaeth ei bod at sylw: Y Tîm Polisi Gorsensitifrwydd i Fwyd / The Food Hypersensitivity Policy Team.

FSA, Floors 6 and 7 Clive House,
70 Petty France,
London,
SW1H 9EX

e-bost: fsa.communications@food.gov.uk
Neu drwy ffonio ein Llinell Gymorth ar 0330 332 7149

Byddwn yn ystyried eich cais ac ymateb ymhen 5 diwrnod gwaith.

## Rhoi gwybod am broblemau hygyrchedd gyda'r wefan hon

Rydym ni bob amser yn ceisio gwella hygyrchedd y wefan hon. Os byddwch chi'n dod o hyd i unrhyw broblemau nad ydyn nhw wedi'u rhestru ar y dudalen hon, neu os ydych chi o’r farn nad ydyn ni'n bodloni gofynion hygyrchedd, cysylltwch â ni trwy ysgrifennu at: Y Tîm Polisi Gorsensitifrwydd i Fwyd / The Food Hypersensitivity Policy Team.

FSA, Floors 6 and 7 Clive House,
70 Petty France,
Llundain/London,
SW1H 9EX

e-bost: fsa.communications@food.gov.uk
Neu trwy ffonio ein Llinell Gymorth ar 0330 332 7149

Darllenwch ragor am gysylltu â sefydliadau mewn perthynas â gwefannau anhygyrch.

## Gweithdrefn orfodi

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os nad ydych chi'n hapus â'r ffordd rydym ni'n ymateb i'ch adroddiad, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb (EASS).

Os ydych chi yng Ngogledd Iwerddon ac yn anfodlon â'r ffordd yr ydym ni'n ymateb i'ch adroddiad, gallwch gysylltu â Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd') yng Ngogledd Iwerddon.

## Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan hon

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi ymrwymo i wneud ei gwefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

### Statws cydymffurfio

Mae'r wefan hon yn cydymffurfio'n rhannol â safon AA fersiwn 2.1 o'r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe, oherwydd yr elfennau o ddiffyg cydymffurfio, a restrir isod.

## Cynnwys nad yw'n hygyrch

Datblygwyd yr hyfforddiant ar-lein hwn gan ddefnyddio system rheoli dysgu (LMS) ac adnodd awduro. Mae cyfuniad o'r ddwy system yn rhoi gwell profiad dysgu i ddefnyddwyr gyda gwersi'r modiwlau tra hefyd yn caniatáu iddynt lywio drwy'r wefan yn hawdd.

Ar hyn o bryd, mae rhai problemau hysbys yn yr adnodd awduro sy'n golygu nad yw'n cydymffurfio'n llwyr â safonau WCAG 2.1. Fodd bynnag, mae'r ASB wedi gwneud y gwasanaeth mor hygyrch â phosibl, er enghraifft:

- Gan ddefnyddio botymau radio yn unig neu gwestiynau gwir/gau er mwyn i ddefnyddwyr sydd â darllenwyr sgrin wybod pa ateb sydd wedi'i ddewis
- Cael gwared ar gynnwys a allai dynnu sylw rhai defnyddwyr
- Amnewid elfennau rhyngweithio gydag eiconau a thestun
- Cynnwys tagiau amgen (alt tags) ar bob delwedd
- Darperir trawsgrifiad hygyrch ar gyfer pob modiwl.

Mae'r cynnwys a restrir isod yn anhygyrch am y rhesymau canlynol.

### Ddim yn cydymffurfio â'r rheoliadau hygyrchedd

Amlinellir y cynnwys nad yw'n hygyrch isod:

- Ar hyn o bryd nid yw'r botwm ‘dechrau’r modiwl’ ar ddechrau pob adnodd dysgu yn cael ei gydnabod fel botwm gan ddarllenwyr sgrin.
- Nid yw rhai tudalennau'n caniatáu swyddogaeth “dal a chwyddo” ar y tudalennau adnoddau. Mae'n ymddangos bod hyn yn berthnasol i rai ffonau symudol android yn unig.

Yn ddiweddar mae darparwr y feddalwedd wedi diweddaru’r wefan er mwyn ceisio datrys y problemau hyn. Mae’r llwyfan yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn mesur effeithiolrwydd y newidiadau hyn. Bydd y datganiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r canlyniadau maes o law.

## Baich anghymesur

Ar yr adeg hon, nid ydym wedi gwneud unrhyw honiadau am faich anghymesur.

## Cynnwys nad yw o fewn cwmpas y rheoliadau hygyrchedd

Ar yr adeg hon, nid ydym ni wedi nodi unrhyw gynnwys nad yw o fewn cwmpas y rheoliadau hygyrchedd.

## Paratoi'r datganiad hygyrchedd hwn

Paratowyd y datganiad hwn ar 11 Medi 2020, ac fe'i hadolygwyd a'i ddiweddaru ddiwethaf ar 4 Ebrill 2022.

Cynhaliwyd rhywfaint o brofion yn fewnol gan yr ASB ac fe wnaethom ni hefyd ymgynghori ag arbenigwr hygyrchedd allanol annibynnol i geisio ei gyngor.

Fe wnaethom ni brofi'r gwasanaeth yn seiliedig ar allu defnyddiwr i gwblhau llwybrau allweddol. Profwyd pob rhan o'r llwybrau a ddewiswyd, gan gynnwys dogfennau.